# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## 26 MEHEFIN 2024

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 26 Mehefin 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Brian Harvey (Cadeirydd) |
| Aelodau Cyfetholedig: | Sally Ellis ac Allan Rainford |
| Cynghorwyr: | Ted Palmer ac Andrew Parkhurst |
| Dirprwyon: | Cynghorwyr: Ryan McKeown (ar ran Teresa Carberry); Allan Marshall (ar ran Andy Hughes); a Jason Shallcross (ar ran Linda Thew) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr: Roedd Linda Thew yn bresennol fel arsylwr. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor); y Cynghorydd Linda Thomas (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol); Lisa Brownbill - Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg; Charles Rigby a Mike Whiteley o Archwilio Cymru |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol); Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau; Ymgynghorydd Polisi Strategol; Ymgynghorydd Perfformiad Strategol; Prif Archwilydd; a Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio (ar gyfer cofnod 6)<br><br>Carwyn Rees a Lora Williams o Archwilio Cymru |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**1. PENODI CADEIRYDD (Dolen i'r recordiad)**

**PENDERFYNWYD:**

Bod Brian Harvey yn cael ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

**2. DIRPRWYON**

Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, cytunodd y Pwyllgor y dylid caniatáu i'r Cynghorwyr Ryan McKeown, Allan Marshall a Jason Shallcross (a oedd wedi cyflawni'r hyfforddiant gofynnol) i ddirprwyo ar ran y Cynghorwyr Teresa Carberry. Andy Hughes a Linda Thew.

**PENDERFYNWYD:**

Y caniateir y Cynghorwyr McKeown, Marshall a Shallcross fel dirprwyon ar gyfer y cyfarfod.

3. **PENODI IS-GADEIRYDD (Dolen i'r recordiad)**

**PENDERFYNWYD:**

Bod Sally Ellis yn cael ei phenodi'n Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

4. **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

**PENDERFYNWYD:**

Dim.

5. **COFNODION**

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2024 yn gofnod cywir.

6. **'GYDA'N GILYDD FE ALLWN NI' – CYDNERTHEDD A HUNANDDIBYNIAETH CYMUNEDAU (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth (Menter ac Adfywio) adroddiad i geisio sicrwydd ar ymateb y Cyngor i'r archwiliad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

Cefnogwyd yr argymhellion, gan nodi bod y Cabinet eisoes wedi derbyn yr adroddiad ac yn cydnabod cyfraniad y sector gwirfoddol i gymunedau Sir y Fflint.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru "Gyda'n Gilydd Fe Allwn Ni' – Cydnerthedd a Hunanddibyniaeth Cymunedau".

(b) bod y Pwyllgor yn nodi'r ymateb a argymhellir mewn perthynas ag argymhellion Archwilio Cymru ac yn cefnogi bod hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgorau priodol ym mis Mehefin 2024; a

(c) Bod y Pwyllgor yn cydnabod gwaith yr amryw o sefydliadau gwirfoddol ac unigolion ar draws y Sir.

**7. STRATEGAETH DDIGIDOL - ADOLYGIAD ARCHWILIO CYMRU, ARGYMHELLION A CHAMAU GWEITHREDU ARFAETHEDIG (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i geisio sicrwydd ar ymateb y Cyngor i'r canfyddiadau yn yr archwiliad gan Archwilio Cymru.

Cefnogwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad, yn amodol ar gais y rhoddir sylw penodol i weithredu'r camau gweithredu mewn perthynas ag Argymhellion Archwilio 3 a 4 pan fydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynllun gweithredu arfaethedig ac yn gofyn bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn talu sylw penodol i weithrediad camau gweithredu mewn perthynas ag Argymhellion Archwilio 3 a 4.

**8. ARCHWILIO CYMRU - DEFNYDDIO GWYBODAETH AM BERFFORMIAD SAFBWYNT DEFNYDDWYR GWASANAETH A CHANLYNIADAU (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol adroddiad i geisio sicrwydd ar ymateb y Cyngor i'r canfyddiadau yn yr archwiliad gan Archwilio Cymru.

Mewn ymateb i'r sylwadau, eglurodd y Prif Swyddog y byddai carreg filltir gynharach i gymeradwyo'r Ymgynghoriad a'r Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu.

Oherwydd pryderon o ran cadernid y cynllun gweithredu a gwirio data, cytunwyd ar argymhelliad diwygiedig, hefyd yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a anfonwyd ymlaen at y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynllun gweithredu diwygiedig mewn perthynas â'r argymhellion gwella.

**9. ARCHWILIO CYMRU: ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB MWY NAG YMARFER BLWCH TICIO (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau a'r Ymgynghorydd Perfformiad Strategol adroddiad i geisio sicrwydd ar ymateb y Cyngor i'r canfyddiadau yn yr archwiliad gan Archwilio Cymru.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd i ddiwallu'r argymhellion gan Archwilio Cymru yn "Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag ymarfer blwch ticio?"

**10. CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL SIR Y FFLINT 2023 (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y gwaith archwilio a rheoleiddio a gwblhawyd gan Archwilio Cymru, ers yr adroddiad blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau gan gynnwys a sylwadau Adroddiad Archwilio Cryno Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2023.

**11. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd adroddiad ar y Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig a oedd yn cynnwys mân addasiadau yn dilyn yr adolygiad yn ddiweddar. Mae wedi cytuno i rannu sylwadau gyda'r Rheolwr Archwilio Mewnol o ran a ddylai'r Siarter adlewyrchu gwybodaeth ar y linell amddiffyn gyntaf a'r ail linell amddiffyn.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol ddiweddaraf.

**12. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd adroddiad ar gynnydd y camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad.

**13. RHAGLEN WAITH (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd y Rhaglen Waith gyfredol i'w hystyried.

Cefnogwyd yr argymhellion, yn amodol ar y ceisiadau canlynol:

- Bod adroddiadau ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf, yn cael eu rhannu cyn gynted â phosib', yn enwedig adroddiad Gwerthuso Perfformiad

AGC.

- Bod adroddiad Archwilio Cymru ar sefydlogrwydd ariannol yn cael ei drefnu'n briodol pan fydd ar gael.
- Y rhoddir ystyriaeth ar gyfer eitem yn y dyfodol ar fodel 'y tair llinell amddiffyn'.

**PENDERFYNWYD:**

(a)Derbyn y Rhaglen Waith, fel y'i diwygiwyd; a

(b)Rhoi awdurdod i'r Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 14. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD HEFYD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.15pm)

Y Cadeirydd

…………………………………………………

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma:https://flintshire.public-i.tv/core/portal/home